# Cyngor Tref *NEFYN* Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 12/02/2019 Siop Siarad am 7yh

**<u>Presennol</u>**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (Cad.) | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Bleddyn Evans | Sharon Williams |
| Guto Williams | Sian Hughes | Gwynfor Jones | Mared Llywelyn | Carys Roberts |
| Rhian Hughes-Jones (Clerc) | | | | |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Catrin Roberts, Caren jones a Glenda Rice

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio; Aelod o Bwyllgor Cynllunio.

3. **Cofnodion 11/12/2018, Pwyllgor Brys 03/01/2019, 15/01/2019 a 29/01/2019 er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion wedi eu newid rhan cywirdeb ac wedi eu derbyn yn gywir:
   Mae Gruffydd Williams eisiau gwneud cywirdeb i gofnodion 29/01/2019 eitem 6, er nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod; Nodwyd mai ar ei gais o fel Cynghorydd Sir mae Cyngor Gwynedd yn edrych i osod rhwystr i'r traethau.
   Sharon Williams eisiau newid y gair 'gwirfoddolwr' i 'tenantiaid' yn 15/01/2019 eitem 4.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   i. Wedi derbyn gohebiaeth gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn nodi bydd waith ail-wynebu yn digwydd 25/02/2019 a bydd y ffordd ar gau i Gae Rhug
   ii. Sharon Williams eisiau diweddariad ar sefyllfa biniau; Nodwyd bod y Clerc yn gweithio ar y mater gyda Chyngor Gwynedd gyda gobaith y caiff y bin ar y traeth ei newid am un mwy a symud bin a oedd wedi malu yn cyn safle ailgylchu i safle bws wrth Tŷ Doctor.
   iii. Mae yna broblem gyda 'Japanese Knotweed' mewn dau safle yn Nefyn. Mae Sharon Williams yn cynnig (eilydd; Rhys Tudur) i'r Clerc gysylltu hefo'r tir feddiannwr i drefnu waredu'r chwyn gan fod yn ofalus i gyd fynd gyda'r gyfraith; Gellir derbyn dirwy o hyd at £ 5,000 neu amser carchar am hyd at 2 flynedd os ydych chi'n caniatáu pridd halogedig neu ddeunydd planhigion o unrhyw wastraff rydych chi'n ei drosglwyddo i ledaenu i'r gwyllt. Bydd y Clerc hefyd yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ac Asiantaeth yr amgylchedd i sicrhau gwaredu'r chwyn yn ddiogel.
   iv. Nodwyd bod y Clerc wedi derbyn cwyn am benderfyniad y Cyngor Tref i beidio llenwi bin halen.

5. **Etholiadau**
   Mae'r Clerc wedi gyrru drafft o holiadur er eu trafod. Nid yw'r Clerc wedi derbyn unrhyw awgrymiadau yn ystod y cyfnod yma. Er hynny mae Sharon Williams yn nodi eu bod yn bryderus am y cwestiynau ar yr holiadur. Cytunwyd yw gohirio at gyfarfod mis Mawrth gyda'r holl awgrymiadau yn cael eu he-bostio i'r Clerc cyn gynted a bod modd.

6. **Gwasanaethau Ieuenctid**
   Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn mwy o gwynion gan aelodau o'r cyhoedd yn bryderus am nifer o blant yn ymgynyll ar y stryd pan maent i fod yn y Clwb Ieuenctid. Maent yn swnllyd ac yn gadael llanast ar eu hol. Mae'r siopau yn ystyried defnyddio system un i mewn ac un allan yn ystod amser y clwb. Nodwyd Gruffydd Williams bod yno gwrthdaro wedi bod gydag aelodau o'r clwb. Nodwyd eto nad oes modd i orfodi'r aelodau i aros yn y ganolfan yn ystod amser y clwb.
   Mae dryswch ynglŷn â'r ddau glwb sydd yn codi nifer o gwestiynau; cynigir Rhys Tudur (eilydd Sharon Williams) i'r Clerc fynd yn ôl at Gyngor Gwynedd er eglurdeb; A yw'r aelodau yn cael mynychu'r ddau Glwb ac yw'r aelodau yn cael mynd ar y tripiau sydd ar gael

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

Mae'r aelodau yn awyddus eto i weithio gyda'r Ieuenctid i'r dyfodol. Mae'n bwysig nodi beth yw pwrpas a gwerth y gwasanaeth fel ac y mae wrth warchod Ieuenctid yr ardal.
Mae Rhys Tudur yn nodi ei fod yn bwysig i fynychu'r Clwb er deall safbwynt yr Ieuenctid. Nodwyd bod Gruffydd Williams wedi bod yn bresennol yn y clwb ar sawl achlysur.
Mae'r Clerc yn fodlon mynychu'r clwb 13/02/2019 ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor.
Cyfarfod brys wedi ei drefnu – 19/02/2019

**7. Traethau**

Diweddariad gan Sian Hughes ac Arfon Hughes yn dilyn cyfarfod gyda'r cyhoedd ac is-bwyllgor Traethau i drafod pryderon y trigolion 29/01/2019. Gweler Atodiad 1

Nodwyd y byddai cyfarfod hefo Cyngor Gwynedd yn fuddiol iawn ar y pwynt yma i drafod opsiynau gwahanol. Mae Rhys Tudur yn cynnig (eilydd: Sian Hughes) gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd yn gofyn am gymorth a chyfarfod.

Mae Gruffydd Williams yn bryderus iawn am beidio mynd hefo rhwystr, nodwyd bod yna oblygiadau ariannol i opsiynau eraill.

Mae Sian Hughes yn nodi bod yr ymddiriedolaeth Genedlaethol yn anghyfrifol ac yn esgeulus yn y modd y maent yn trin y sefyllfa.

**8. Llwybrau**

Nodwyd y Clerc eu bod wedi gyrru gwybodaeth taliadau llwybrau i Gyngor Gwynedd er cael ein cyfraniad blynyddol.
Nid yw'r Clerc wedi derbyn unrhyw wybodaeth ar y gwaith sydd eisiau eu gwneud yn Y Ddol, mae Gruffydd Williams wedi cytuno eto i yrru gwybodaeth ymlaen i'r Clerc er gweithrediad.
Diweddariad gan Gruffydd Williams;
Llwybr wrth Y Cliffs – Mae nifer o broblemau wedi codi ar y safle ac mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen er datrys hyn i roi mynediad dros y tir.
Llwybr y Morwyr – Mae'r llwybr wedi ei nodi ar y map diffiniol bellach.
Mae Sian Hughes yn bryderus am gyflwr llwybr y morwyr fel ac y mae ar y funud, nid oes cyllid i wella'r sefyllfa ar hyn o bryd.

**9. Siop Siarad**

Diolch i Arfon Hughes am glirio yn Siop Siarad 29/01/2019 a diolch i Bleddyn Evans am rhoi diwrnod o waith yn wirfoddol i osod rheiddiaduron yn Siop Siarad.

**10. Gwynedd Digidol**

Dim diweddariad. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda Menter Môn.

**11. Lloches Bws**

Yn dilyn ymholiad gan y cyhoedd ynglŷn â lloches bws cysylltwyd gyda Chyngor Gwynedd sydd yn nodi yntai Gyngor Tref sydd yn gyfrifol am yr oll lloches yn y gymuned. Mae'r Clerc wedi gofyn am dystiolaeth am hyn gan Gyngor Gwynedd eto ond ddim wedi derbyn ymateb. Bydd rhaid derbyn mwy o wybodaeth at gyfarfod nesaf.

**12. Llyfrgell**

Yn dilyn is-bwyllgor Y Llyfrgell 22/01/2019 i drafod gwaith adnewyddu mae'r is-bwyllgor wedi llunio rhestr o waith sydd eisiau eu gwneud. Gweler ATODIAD 2
Bydd y Clerc yn defnyddio'r rhestr i lunio disgrifiad o waith er derbyn dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith.

**13. Parti Pafin**

Gwahoddir Rhodri Evans ar ran Bwyllgor Tafarn yr Heliwr i gyflwyno eu syniad o barti pafin.
Mae Pwyllgor Tafarn yr Heliwr wedi derbyn grant o £8500 gan Arloesi Gwynedd i drefnu parti ar y pafin yn Nefyn. Y bwriad yw gau'r Stryd Fawr i osod stondinau o 10:00 y.b. hyd at 5:00 y.h. yn fis Gorffennaf 2019 i fusnesau lleol werthu eu cynnyrch i'r cyhoedd. Mae gobaith y gellir agor y siopau gwag ar hyd y stryd yw defnyddio yn ystod y diwrnod. Bydd hefyd digwyddiad yn Dafarn yr Heliwr ar y diwrnod yn ddibynnol ar sefyllfa'r adeilad ar y pryd.
Mae nifer o Strydoedd Mawr drefi bychain yn dioddef yn yr oes ddigidol ac mae eisiau rhoi hwb i'r ardaloedd hynny.
Mae'r fenter yn un dielw gydag unrhyw elw yn mynd yn ôl i'r gymuned.
Bydd eisiau gweithio yn agos gydag adran priffyrdd i sicrhau mynediad i bawb trwy Nefyn yn ystod y digwyddiad.
Cynigir Arfon Hughes (eilydd: Rhys Tudur) i Gyngor Tref Nefyn yrru llythyr cefnogi i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn ogystal â Phwyllgor Tafarn yr Heliwr.
Nodir y dylai gael cyfarfod i'r dyfodol ac i aros mewn cysylltiad yn ystod y prosiect. Diolch i Rhodri Evans am fynychu.

**14. Cofio'r Norwyad**

Mae Rhian Hughes-Jones wedi derbyn galwad ffôn gan Henry Williams. Mae Mr Williams yn frwdfrydig i gofio'r Norwyad a oedd yn byw ac yn hyfforddi yn Nefyn ar gyfer yr ail ryfel byd. Mae Mr Williams gyda chof melys iawn o'r adeg yma gyda nifer o straeon am yr hyn yr oedd y Norwyad yn eu gwneud. Mae Mr Williams yn barod i dalu am gofeb i'r Norwyad yma ac yn gofyn am gydweithied Cyngor Tref Nefyn.
Cytunwyd Carys Roberts i gysylltu hefo Mr Williams i gael mwy o wybodaeth ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref.

**Ceisiadau Cynllunio**

**C18/1185/42/LL**

Newid defnydd rhan o ardd i leoli dau gaban bugail pren symudol I'w gosod I ymwelwyr a defnyddio'r modurdy presennol ar gyfer toiled, cawod a chegin i'r Ymwelwyd
Dwyryd, Rhodfa'r Mor, Nefyn
**Cefnogi**

**C19/0044/42/LL**

Dymchwel modurdy presennol ac adeiladu stiwdio a stydi.
Clydfan, Lon Groesffordd, Edern.
**Cefnogi**

**Apêl C18/023/42/LL, APP/Q6810/A/19/3221799**

Dymchwel uned storio bresenolac adeiladu 2 uned wyliau
Tynpwll Cottage, Lon Ty'n Pwll, Nefyn
**Mae'r Cyngor Tref eisoes wedi gwrthwynebu'r bwriad yma ar sail; Gôr ddatblygiad o'r safle, perygl ar y ffordd gul brysur ac adeilad newydd yn gefn gwlad.**
Mae'r Cyngor Tref yn dirprwyo'r hawl i'r Clerc lenwi'r ffurflen apêl.

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 12/02/2019 Siop Siarad am 7yh

**Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru** - Bwletin Chwefror 2019
2. **SLCC** - Bwletin Chwefror 2019
3. **Clerks & Councils Direct** – Chwefror 2019
4. **Local Council Update** – Chwefror 2019
5. **y Comisiynydd Pobl Hyn Cymru** - Cylchlythyr Arbenning
6. **Llyfrgell Cenedlaethol Cymru** - gweithdai 'atgof byw' – delweddau therapi'r cof ar-lein
7. **Cyngor Gwynedd** - Arolwg Strategaeth Ariannol Cyngor Gwynedd
8. **Bws Arfordir Llyn** - Adroddiad Bws Arfordir
9. **Alzheimer's Society** - Codi llais ar weithredu: Cymru cynhadledd 2019
10. **Cyngor Defnyddwyr Dwr** - cymorth fforddiadwyedd sydd ar gael i gwsmeriaid dwr yng Nghymru
11. **Tafarn Yr Heliwr** – Holiadur
12. **Cyngor Gwynedd** - Holiadur Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd
13. **Un Llais Cymru** - Hyfforddiant Mis Chwefror - Y Gogledd
14. **Elusen Ambiwlans Awyr Cymru** - Diwrnod Agored
15. **Swyddfa Archwilio Cymru** - adroddiad cenedlaethol
16. **Llywodraeth Cymru** - tai cydweithredol o dan arweiniad y gymuned
17. **Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd** - Lleihau niwed a diogelu pobl fregus
18. **Priffyrdd Cyngor Gwynedd** – Gwaith Ailwynebu arfaethedig, Cae Rhug, Nefyn
19. **Priffyrdd Cyngor Gwynedd** – Rhaglen Waith Mis Chwefror
20. **Clwb Peldroed Nefyn** – Llythyr Diolch

**Taliadau wedi eu gwneud**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc –** Chwefror 2019 | **£797.57** |
| **PAYE -** HM Revenue & Customs | **£33.88** |
| **BACSTAL –** Gwasanaethau Cyflog | **£18.90** |
| **Cliff Hughes –** Contract 2017-2020 | **£825.00** |
| **Cyngor Gwynedd –** Glanhau Llyfrgell | **£128.06** |
| **Brigde Secutity Systems Ltd –** Llyfrgell | **£58.50** |
| **J G Jones –** Torrwr beddi<br>Anfoneb 20/01/2019 - £375.00, Anfoneb 20/01/2019 - £375.00, Anfoneb 20/01/2019 - £425.00 | **£1175.00** |
| **D M Parry** – Torri Mynwentydd<br>Nefyn - £833.00, Morfa Nefyn - £166.00 | **£999.00** |

**Taliadau Wedi Eu Gwneud**

| | |
|---|---|
| **Nefyn Foods Ltd** – Rhent Siop Siarad | **£780.00** |

**Taliadau wedi eu derbyn**

| | |
|---|---|
| **DIM** | **£0.00** |

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

**Ceisiadau am gyfraniad**

1. **LLYFRAU LLAFAR CYMRU** - Bob blwyddyn byddwn ni, yn Llyfrau Llafar Cymru yn recordio 50 o lyfrau Cymraeg a Saesneg fel y gall pobl sydd â nam ar eu golwg fwyhau pob math o lenyddiaeth.
2. **Nyrsys Marie Curie -** Mae'r holl arian sydd yn cael ei cyfrani yn cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie, felly gall y claf a teuluoedd yn y cymuned gael help gan eich rhodd.
3. **Prosiect Plas Carmel, Anelog –** Adfer hen adeilad capel unigryw a datblygu'r safle fel atyniad treftadaeth.
4. **Dawns i Bawb**
5. **Theatr Bara Caws** - cais am gymhorthdal am y flwyddyn ariannol 2018/19
6. **Ffermwyr Ifanc Eryri** – Cais am gyfraniad
7. **Ymdduriedolaeth Gofalwyr** – Elusen syn cynnig cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i Ofalwyr di-dal yn Gwynedd.

**Materion yw rhoi ar agenda Nesaf; Ffurflen gwerthuso**

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

## ATODIAD 1

**Presennol**

Sian Hughes (Cad.) Guto Williams Arfon Hughes Carys Roberts Rhys Tudur Rhian Hughes-Jones (Clerc)

**15. Ymddiheuriadau**
Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Gruffydd Williams ac nifer o aelodau o'r cyhoedd.

**16. Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
Dim

**17. Cofnodion**
Dim

**18. Unrhyw Fater Brys**
Dim

**19. Etholiadau**
Cyn y gellir mynd ymlaen bydd angen apwyntio cadeirydd; Mae Arfon Hughes (eilydd; Carys Roberts) yn cynnig Sian Hughes i'r sedd ac mae'r cynnig yn cario yn unfrydol.
Mae Sian Hughes (eilydd; Carys Roberts) yn cynnig Arfon Hughes fel is-gadeirydd ac mae'r cynnig yn cario yn unfrydol.

**20. Traethau**
Sian Hughes yn croesawu'r cyhoedd i'r cyfarfod gyda 10 yn mynychu a nifer yn ymddiheuro nad ydynt yn gallu bod yn bresennol.
Mae'r cadeirydd yn nodi hanes Cyngor Tref Nefyn yn gyd weithio hefo Cyngor Gwynedd a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i warchod y traethau. Bu Cyngor Gwynedd, Cyngor Tref a'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cyfraniad ariannol yn flynyddol. Mae'r cytundeb yma yn dod i ben a ni fydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol bellach yn cyfrannu. Nodi'r bu felly angen gwneud newidiadau i'r trefniadau. Mae Sian Hughes a Gruffydd Williams eisoes wedi cael cyfarfod cychwynnol hefo Cyngor Gwynedd i edrych am ateb i'r broblem.
Ar gais Cynghorydd Sir Gruffydd Williams mae Cyngor Gwynedd yn ystyried gosod rhwystr ar draws mynediad y traethau yn Morfa Nefyn ac yn Nefyn. Nodwyd bod y Cyngor Tref yn awyddus iawn i gynnwys y cyhoedd yn y trafodaethau o'r cychwyn.
Dilynwyd trafodaeth addysgiadol ddefnyddiol iawn yn nodi'r pwyntiau isod:
**Pryderon**

- Ceir yn mynd ar y traeth
- Pysgotwyr, Deiliaid Tai a Gwasanaethau Brys angen mynediad i'r traethau
- Ceir yn parcio ar hyd y ffordd i lawr at y traethau
- Cwn ar yr ochr anghywir i'r traeth
- Jet ski yn gyrru yn wirion yn bob man
- Dim parch tuag at wardeiniaid
- Dim pafin i gerdded ar ochr y ffordd a'r ffordd yn gul ofnadwy
- Mae angen gwneud yn siwr bod y gallu i bawb ddefnyddio'r traeth
- Pobl heb ddim synwyr cyffredin

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

**Cynnigion**

- Rheoli amseroedd – Dim parcio o gwbl rhwng 9 a 6
- Warden yn bresennol o Sulgwyn i ddiwedd Medi
- Angen arwyddion gwell
- Cosb uchel am barcio / anwybyddu rheoliadau
- Warden hefo pŵer gorfodaeth – gallu rhoi cosb
- Sganio ceir fel y maent ar ei ffordd i'r traeth
- Codi am barcio
- Tractor i lansio
- Gosod llinellau dwbl melyn ar ddwy ochr i'r ffordd yr holl ffordd i lawr i'r traethau
- Defnyddio maes parcio, gosod arwyddion i'r mannau parcio
- Lledu'r ffordd
- Symud cwt y Gwardeiniaid
- Bws i'r traeth, fel parcio a chario – Bws yr Arfordir
- Jet Ski wedi eu cofrestru yn unig; gellir defnyddio cyllid o'r cosbau yn ar gyfer rheoli'r traethau
- Bwi cyflymder
- Cyngor Gwynedd yn dod i reoli yn achlysurol
- Sianel ar gyfer lansio wedi ei arwyddo yn glir

Nodwyd yn gadarnhaol nad oedd un aelod o'r cyhoedd eisiau rhwystr ar draws mynedfa'r traethau. Nodwyd y bydd yn cael ei falu ac ni fydd yn ateb i'r broblem ond yn achosi mwy o broblemau.


Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

## ATODIAD 2

Rhaglen Waith  Paentio'r Llyfrgell ar gyfer tendar.

Bydd rhaid i'r gwaith mewnol gael ei wneud o amgylch oriau'r llyfgell fel na fydd toriad ar y gwasanaeth. Os yw hyn yn amhosibl, gellid rhoi ystyriaeth i gau y gwasanaeth am gyfnod byr yn unig. Dylid rhoi sylw i'r mater hwn yn y tendar.

Tu allan-
Crafu hen baent a pharatoi y waliau drwy lenwi craciau / tynnu iddew etc ar gyfer paent.
Matsio lliw y paent a'i brynu.
Paentio yr adeiad i gyd yn allanol heblaw am y rhan sy'n cynnwys y toiled hygyrch. Eisioes wedi ei wneud.
Golchi landeri/ ysgubo etc er mwyn sicrhau cyflwyniad taclus.

Tu fewn-
Paratoi y waliau ar gyfer paent. Sylw arbennig i'r ardaloedd bler o dan y ffenestri uchel, o amgylch y rheiddiaduron, yn y toiled staff.
Matsio lliw a phrynu paent.
Nid oes angen paentio'r toiled hygyrch/stordy newydd. Mae eisioes wedi ei wneud.
Dylid rhoi ystyriaeth i'r math o baent a ddefnyddir yn y toiled staff oherwydd tymheredd isel/cyddwysiad (condensation).
Cot o baent ar y to uchel.
Dylid symud unrhyw ddodrefn sy'n symud ol ar gyfer paentio tu ol iddynt a'u gwarchod gyda gorchudd.
Bydd angen dwy got o baent neu ddefnyddio paent trwchus megis "once" er mwyn sicrhau gwedd gyson daclus ar y waliau.

Bydd Cynghorydd Sharon Williams ar gael i fynychu'r llyfgell a thrafod y rhaglen waith uchod gyda rhybudd.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737